

# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy



Enw'r Polisi / Policy Name: Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn i Fyfyrrwyr  
Cod y ddogfen / Document code (os yn berthnasol / if applicable)

Adran / Department: Gwasanaethau Myfyrrwyr

Awdur y Ddogfen / Document Author: Caroline MCCarthy

Teitl Swydd / Job Title: Rheolwr Gwasanaethau Myfyrrwyr

Dyddiad Cymeradwyo / Date of Approval: Medi 2022

Dyddiad Adolygu / Review Date: Medi 2025

# Polisi Coleg Penybont

## Bridgend College Policy



### Rhestr Wirio'r Polisi:

Gofynion ar gyfer Llunio'r Polisi		Gwybodaeth Atodol
Ydy'r Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau? Gweler y ffurflen isod.	<b>Ydy</b>	
Ydy'r Aseiad Effaith ar y Gymraeg wedi cael ei gwblhau? Gweler y ffurflen isod.	<b>Ydy</b>	
Ydy Aseiad Effaith ar Ddiogelu Data wedi cael ei ystyried ynghylch y polisi hwn? Os ydyw, cysylltwch â'r Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth i gwblhau Aseiad Effaith ar Ddiogelu Data.	<b>Amherth-nasol</b>	
Ydy'r adolygiad wedi cymryd y Canllawiau/Deddfwriaeth ddiweddaraf i ystyriaeth?	<b>Ydy</b>	
Oes angen cyngor cyfreithiol? Os oes, sicrhewch eich bod wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau'r cyngor cyfreithiol priodol cyn parhau.	<b>Nac oes</b>	
Oes angen hyfforddi staff? Os oes, sicrhewch fod yr hyfforddiant angenrheidiol wedi cael ei drefnu drwy'r Cynghorydd Dysgu a Datblygu.	<b>Oes</b>	Arweinydd Ymgysylltu Myfyrwyr a Swyddogion Cymorth Cymraeg i gyfarfod â Chydlynnydd Cludiant a Lles Ariannol y Myfyrwyr
Oes unrhyw faterion sy'n gysylltiedig ag Adnoddau Dynol sydd angen eu hystyried? Os oes, cysylltwch â'r Rheolwr AD i drafod hyn ymhellach.	<b>Nac oes</b>	
Oes unrhyw faterion ariannol cysylltiedig? Os oes, cysylltwch â'r Rheolwr Cyllid i drafod hyn ymhellach.	<b>Nac oes</b>	
<i>Defnydd yr Uwch Dîm Arwain yn unig:</i>		
Ydy hwn yn bolisi newydd? Os ydy, mae angen i'r Uwch Dîm Arwain lenwi'r <a href="#">Rhestr Wirio Dirprwy Cymeradwyaeth Polisïau'r Coleg</a> adeg y cymeradwyir y polisi.		
Lefel cymeradwyaeth a roddwyd:		

### 1. Pwrpas ac Amcanion:

Nod y Gronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG), sy'n cael ei darparu'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru a'i rheoli gan y Coleg, yw dileu rhwystrau i ddysgu i'r dysgwyr hynny sydd mewn caledi ariannol. Bydd mynediad at gymorth ariannol drwy'r gronfa hon yn dibynnu ar incwm y cartref ac amgylchiadau unigol. Bydd myfyrwyr 16 i 18 oed sy'n gymwys ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg a myfyrwyr 19+ oed sy'n gymwys ar gyfer Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud cais am gymorth ariannol pellach o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

### 2. Manylion y Polisi:

2.1 Mae'r CAWG ar agor i fyfyrwyr sydd mewn addysg ôl-16, ac mae'n gronfa gyfyngedig.

2.2 Mae'r CAWG yn galluogi'r Coleg i ddarparu rhwydwaith rhad ac am ddim o fysiau sy'n rhedeg ar draws ardaloedd awdurdodau lleol y tu allan i fwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

2.3 Mae'r CAWG yn galluogi myfyrwyr i hawlio arian am filltiroedd a deithir mewn trên neu gar ar gyfer eu hastudiaethau, yn dibynnu ar oedran a man preswyllo.

2.4 Gall y CAWG gefnogi myfyrwyr gyda'u ffioedd gofal plant. Darperir dyraniad penodol tuag at gostau gofal plant ar gyfer pob diwrnod o bresenoldeb, ar gyfer un plentyn un unig. Gall myfyrwyr ddefnyddio Meithrinfa Ddydd Coleg Penybont neu feithrinfa neu ofalwr plant cofrestredig arall.

2.5 Gellir defnyddio'r CAWG tuag at gostau sy'n ymwneud â'r cwrs, gan gynnwys offer, gwisg, llyfrau, teithiau, a gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) lle bo hynny'n berthnasol.

2.6 Gall y CAWG gefnogi myfyrwyr gyda chostau prydau bwyd. Mae lwfans prydau dyddiol ar gael i fyfyrwyr. Fel arfer mae angen i fyfyrwyr neu rieni/gwarcheidwaid ddangos eu bod yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:

- cymhorthdal incwm
- lwfans ceisio gwaith sy'n seiliedig ar incwm
- cymorth o dan Ran VI y Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- lwfans cymorth a chyflogaeth sy'n seiliedig ar incwm
- credyd treth plant (ond nid credyd treth gwaith) os nad yw eich incwm blynyddol, fel yr aseswyd gan greydau treth, yn fwy na £16,190
- elfen gwarant o greyd pensiwn
- 'parhad' credyd treth gwaith (y taliad y gall rhywun ei gael am bedair wythnos ychwanegol ar ôl iddynt beidio â bod yn gymwys ar gyfer credyd treth gwaith)
- credyd cynhwysol (ddim mewn gwaith)

- credyd cynhwysol (mewn gwaith) lle mae eich dyfarniad yn seiliedig ar enillion blynyddol net is na £7,400 o'ch cyflogaeth neu hunangyflogaeth

### 3. Cyfrifoldebau (os yn berthnasol):

2.1 Mae'r Cydlynnydd Cludiant a Lles Ariannol Myfyrwyr yn gyfrifol am ddatblygu gweithdrefnau priodol ar gyfer rheoli'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Mae'n bosibl y bydd angen addasu gweithdrefnau'n flynyddol yn dibynnu ar ganllawiau Llywodraeth Cymru, blaenoriaethau o ran cefnogi dysgwyr, a'r cyllid sydd ar gael.

2.2 Mae gan y Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr yr awdurdod i wneud penderfyniadau am daliadau yn ôl disgrisiwn i fyfyrwyr ar sail tystiolaeth a ddarperir.

### 4. Dogfennau Cysylltiedig (os yn berthnasol):

Strategaeth Tlodi ac Amddifadedd

Safonau'r Gymraeg

[Atodiad – Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a Safonau'r Gymraeg - DRAFFT](#)

[Gwasanaethau Myfyrwyr » Coleg Penybont](#)

### 5. Adolygiad y ddogfen: i'w hadolygu'n flynyddol

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

<b>Enw'r Polisi / Gweithdrefn</b>	Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn i Fyfyryr				
<b>Perchennog y Polisi</b>	Rheolwr Gwasanaethau Myfyryr				
<b>Nod(au) a Phwrpas y Polisi</b>	Egluro pwrpas y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.				
<b>Ar bwy mae'r polisi hwn yn effeithio?</b>	<b>Dysgwyr</b>	✓	<b>Staff</b>		<b>Y Cyhoedd</b>

Nodwedd gydraddoldeb	Effaith gadarnhaol	Effaith niwtral	Effaith negyddol	Rheswm/sylw
Oedran	✓			
Anabledd	✓			
Ailbennu rhywedd	✓			
Priodas a phartneriaeth sifil	✓			
Beichiogrwydd a mamolaeth	✓			
Hil	✓			
Crefydd neu gred	✓			
Rhyw	✓			
Cyfeiriadedd rhywiol	✓			

Dyddiad cwblhau: 18/7/22

Llofnod y Rheolwr a gwblhaodd yr asesiad:

### Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Enw'r Polisi / Gweithdrefn	Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn i Fyfyrrwyr					
Perchennog y Polisi	Rheolwr Gwasanaethau Myfyrrwyr					
Nod(au) a Phwrpas y Polisi	Egluro pwrpas y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.					
Ar bwy mae'r polisi hwn yn effeithio?	Dysgwyr	✓	Staff		Y Cyhoedd	

### Safonau'r Gymraeg

Rhif	Math	Safon	Cadarnh aol (gallai fod o fudd)	Negyddo I (gallai effeithio)	Dim Effaith
94	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	✓		
100	Safonau Llunio Polisi Policy Making standards	Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol—  (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol yn eu cael ar— (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—	✓		

# Polisi Coleg Penybont

## Bridgend College Policy



		<p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar—</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol ar—</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>			
--	--	--	--	--	--

### Cynllun Gweithredu

Dylai camau gweithredu ddangos y camau i'w cymryd i leihau neu, lle bo modd, ddileu unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg.

Gweithred	Pwy	Erbyn Pryd	Mesur Llwyddiant / (sut y byddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni'r camau gweithredu)
Hyrwyddo'r Gymraeg ac annog myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg i wneud cais drwy gyfrwng y Gymraeg	Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr	Gorffennaf 2022 ac ymlaen	Cofnodi'r nifer o geisiadau am y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a wneir trwy gyfrwng y Gymraeg
Cefnogi myfyrwyr sy'n gwneud cais drwy gyfrwng y Gymraeg	Cydlynnydd Cludiant a Lles Ariannol y Myfyrwyr	Gorffennaf 2022 ac ymlaen	Cofnodi'r nifer o geisiadau am gymorth i wneud cais trwy gyfrwng y Gymraeg
Gweithio gyda'r Arweinydd Ymgysylltu Myfyrwyr	Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr, Arweinydd	Gorffennaf 2022 ac ymlaen	Rhannu a chofnodi gwybodaeth am y nifer o geisiadau a wneir trwy gyfrwng y Gymraeg

# Polisi Coleg Penybont

## Bridgend College Policy



(Cymraeg) a Swyddogion Cymorth Cymraeg i godi ymwybyddiaeth o'r cyfle i wneud cais am y Gorfna Ariannol Wrth Gefn drwy gyfrwng y Gymraeg	Ymgysylltu Myfyrwyr (Cymraeg), Swyddogion Cymorth Cymraeg		
--	---	--	--

**Dyddiad Cwblhau'r Aseiad:** 18/7/22